

Gŵyl Bensaerniaeth Cymru

Darganfod yr annisgwyl...

Rhaglen Mawrth i Mehefin 2019

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
a manau eraill ledled Cymru

Dyddiad	Lleoliad	Math o Ddigwyddiad	Digwyddiad
Dydd Gwener 15 Mawrth	Caerfyrddin	Lansiad	Derbyniad lansiô'r Wyl
Dydd Sadwrn 16 Mawrth	Parc Dinefwr YG	Symposiwm	Symposiwm Tirweddau Blaengar
Tan ddydd Sadwrn 23 Mawrth	Caerfyrddin	Arddangosfa	Y Prosiect Adeiladu
Dydd Mawrth 26 Mawrth	Abertawe	Sgwrs	Stori'r Beirniad – rheithgor Tŷ y Flwyddyn yr RIBA
Dydd Mercher 27 Mawrth	Caerdydd	Gweithdy Dylunio	Gweithdy Adeiladau Gweithredol
Dydd Sadwrn 30 Mawrth	Rhuthun	Ffilm	Metropolis
01/04/19 tan 12/04/19	Aberystwyth	Arddangosfa	Trysorau o gasgliad lluniadau pensaernïol yn LLGC
Dydd Mawrth 2 Ebrill	Abertawe	Gweithdy Dylunio	Stiwdio Agored Pensaernïaeth ac Adeiladu
Dydd Mercher 3 Ebrill	Abertawe	Gweithdy Dylunio	Gweithdy Adeiladau Gweithredol
Dydd Iau 4 Ebrill	Tredegar	Beirniadu Byw	Tref Tredegar y Dyfodol
Dydd Sadwrn 6 Ebrill	Abertawe	Gweithdy Dylunio	Gweithdy Byddwch yn Bensaer am Ddiwrnod
Tan ddydd Sadwrn 06 Ebrill	Machynlleth	Arddangosfa	Strata: Phillip Huckin
Dydd Mawrth 9 Ebrill	CAT Machynlleth	Sgwrs	Darlith gan Benseiri Hall + Bednarczyk
Tan ddydd Sadwrn 13 Ebrill	Caerdydd	Sgwrs	Frank Lloyd Wright
13/04/19 tan 22/06/19	Machynlleth	Arddangosfa	Gorsafoedd Hela Morflod Coll yr Is-Antarctig
Dydd Sadwrn 27 Ebrill	Rhuthun	Ffilm	Dark City
08/05/19 tan 28/06/19	Aberystwyth	Arddangosfa	Darganfod Pensaernïaeth Cymru
Dydd Mercher 8 Mai	Machynlleth	Sgwrs	Hanes pensaernïaeth mewn 20 o adeiladau Cymru
Dydd Iau 9 Mai	Aberystwyth	Lansiad	Dathliad Hanner Ffordd trwy'r Wyl
Dydd Sadwrn 25 Mai	Rhuthun	Ffilm	Urbanized
Dydd Iau 30 Mai	Caerdydd	Dathliad	Gwobrau Pensaernïaeth Cymru 2019
Dydd Gwener 31 Mai	Wrecsam	Lansiad	Garddwst Tŷ Pawb
Dydd Sadwrn 1 Mehefin	Aberystwyth	Gweithdy Dylunio	Gweithdy Byddwch yn Bensaer am Ddiwrnod
Dydd Sadwrn 8 Mehefin	Caerdydd	Sgwrs	William Burges – Athrylith yr Adfywiad Gothig
Dydd Sadwrn 29 Mehefin	Rhuthun	Ffilm	1984

Mae Gŵyl Bensaernïaeth Cymru yn fenter ar y cyd rhwng Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth - Prifysgol Aberystwyth – a Changen Canolbarth Cymru o Gymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru (RSAW). RSAW yw Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) yng Nghymru. Mae ganddi bedair cangen ac mae'n cynrychioli dros 650 o benseiri siartredig yng Nghymru.

Darganfod yr annisgwyl...

Mawrth, Ebrill, Mai, Mehefin

Cafodd 2019 ei henwi'n *Flwyddyn Darganfod* Cymru, felly mae Gŵyl Bensaerniaeth Cymru yn dychwelyd y gwanwyn hwn i ddathlu popeth sy'n ddiddorol ac annisgwyl am adeiladau a allai fod ar garreg eich drws, lle bynnag yr ydych yng Nghymru. Gan fentro y tu hwnt i'n cartref arferol yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, bydd Gŵyl 2019 yn estyn allan at gynulleidfa ehangach gyda 25 o ddigwyddiadau mewn 15 o leoliadau sydd o ddiddordeb pensaernïol ledled Cymru. Gyda ffilmiau, sgysiaau ac arddangosfeydd, yn ogystal â dychweliad y gweithdy poblogaidd 'Byddwch yn bensaer am ddiwrnod', gobeithiwn y bydd rhywbeth i bawb i'w ddarganfod!

Mae mynediad am ddim oni bai y dangosir pris; cofrestrwch ymlaen llaw os nodir hynny yn y testun.

DATHLIADAU

Derbyniad lansio'r Wyl
a symposiwm

Dydd Gwener 15 Mawrth, 6pm - 8pm
Oriol Myrddin, Caerfyrddin

Gwahoddir mynychwyr y symposiwm a gwsteion RSAW i ymuno ag Oriol Myrddin a Niall Maxwell o'r Swyddfa Wledig Pensaerniaeth ar gyfer diodydd a chanapés i ddathlu lansio Gŵyl Bensaerniaeth Cymru 2019, cyn y symposiwm Tirweddau Blaengar yn Nhŷ Newton, Parc Dinefwr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ar ddydd Sadwrn 16 Mawrth. Cewch gyfte i weld arddangosfa Y Prosiect Adeiladu a chw'rdd â'r dylunwyr Marcus Beck a Simon Macro (Freshwest) i gael clywed am y themâu ar cysyniadau a oedd yn sail i'r arddangosfa.

Mae angen cofrestru rsaw@riba.org
029 2022 8987

Dathliad Hanner Ffordd trwy'r Wyl
Dydd Iau 09 Mai, 6pm - 8pm
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, sinema
a chaffi'r cyntedd

I nodi lansiad yr arddangosfa *Darganfod Pensaerniaeth Cymru - Gorffennol, Presennol a'r Dyfodol* ac i ddathlu hanner ffordd drwy ein seithfed Gŵyl estynedig, bydd Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn cynnal sgwrs am

bensaerniaeth Cymru y gorffennol a'r dyfodol, gan ddechrau ar y llwyfan am 6pm ac yn parhau yng nghaffi'r cyntedd gyda diodydd a lluniaeth tan 8pm.

Mae angen cofrestru rsaw@riba.org
029 2022 8987

Garddwest Tŷ Pawb
Dydd Gwener 31 Mai, 4pm - 6pm
Tŷ Pawb, Wrecsam

Wedi'i sefydlu gan yr artist Kevin Hunt fel datblygiad o gomisiwn blynyddol Wal Pawb gan Tŷ Pawb, mae'r Clwb Garddio wedi datblygu adran o faes parcio aml-lawr yn ardd gymunedol amgylcheddol ymwybodol. Dewch i ddathlu!

Ymunwch â ni ar y diwrnod! I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
Heather.Wilson@wrexham.gov.uk

Gwobrau Pensaerniaeth Cymru 2019 -
seremoni wobrwyo
Dydd Iau 30 Mai, 6pm - 8.30pm
Cornerstone, Caerdydd

Cewch wybod pa adeiladau gan benseiri siartredig RIBA fydd yn ennill Gwobrau Pensaerniaeth Cymru a gwobrau categorïau arbennig yn 2019.

Tocynnau £25 + TAW
rsaw@riba.org 029 2022 8987

SYMPOSIWM

Tirweddau Blaengar:
pensaerniaeth/pŵer/lle



Dydd Sadwrn 16 Mawrth 9.30am - 4pm; a
gweithdy dewisol 5pm - 6pm
Tŷ Newton, Parc Dinefwr yr Ymddiriedolaeth
Genedlaethol, Sir Gaerfyrddin

Fel rhan o raglen gyhoeddus 2019 yr
Ymddiriedolaeth Gynhoeddus, Tirweddau'r Bobl,
bydd y fforwm hwn yn gwahodd penseiri,
artistiaid, cynllunwyr, ysgrifenyddwyr ac
amgylcheddwyr i ystyried sut y mae ein tir,
cymunedau a'n hunaniaeth wedi'u siapio gan
bŵer a braint, gan ganolbwyntio ar wneud y
dirwedd treftadaeth yn fwy perthynasol a
diddorol i bawb. I gloir diwrnod bydd cyfle i
ymuno yn un o weithdai Y Prosiect Adeiladu
Oriol Myrddin, gan greu eich 'tŷ' plastr bach eich
hun fel rhan o anheddiad bychan, wedi'i guradu
gan yr ymarferwyr creadigol Freshwest.

Tocynnau: £55 Archebwch yn goo.gl/yvh8vG

GWEITHDAI DYLUNIO

Gweithdai Y Prosiect Adeiladu
Dydd Sadwrn 16 Mawrth, 11am a 2pm
Tŷ Newton, Parc Dinefwr yr Ymddiriedolaeth
Genedlaethol, Sir Gaerfyrddin

Dewch draw i wneud eich cyfraniad eich hun i
anheddiad bach Y Prosiect Adeiladu drwy
greu eich 'tŷ' plastr bach eich hun fel rhan o'r
gwaith celf gan yr ymarferwyr creadigol
Freshwest.

Cynhelir y gweithdai am 11am a 2pm; mae'n
rhaid archebu lle.
www.orielmyrddingallery.co.uk/
Ffôn 01267 222 775
[www.eventbrite.co.uk/o/oriel-myrddin-gallery-
17838782453](http://www.eventbrite.co.uk/o/oriel-myrddin-gallery-17838782453)

Gweithdy Adeiladau Gweithredol

Dydd Mercher 27 Mawrth, Caerdydd
Dydd Mercher 03 Ebrill, Abertawe

Bydd mynychwyr y gweithdy hwn, sydd wedi'i
anelu at benseiri a thechnegwyr, yn
cynorthwyo i siapio Cod Ymarfer newydd ar
gyfer dylunio 'Adeiladau Gweithredol' sy'n cael
ei ddatblygu a'i ddilysu fel rhan o
ddoethuriaeth broffesiynol yn yr amgylchedd
adeiledig cynaliadwy yng Nghanolfan
Arloesedd a Gwybodaeth SPECIFIC, Prifysgol
Abertawe. Gallwch gyfrannu eich gwybodaeth

a gwerthuso'r Cod Ymarfer sy'n esblygu drwy
ymarferiad dylunio a thrafodaethau adborth.

Am ddim i aelodau RSAW-RIBA; £25 i eraill;
cofrestru: rsaw@riba.org 0292 022 8987

Stiwdio Agored Pensaerniaeth ac Adeiladu


Dydd Mawrth 02 Ebrill 10am - 4pm
Ysgol Bensaerniaeth Abertawe /CWIC,
PCDDs, Ardal Arloesi, Abertawe SA1 8EW

Cyfle i gael profiad ymarferol o'r cyfeusterau
technegol a dylunio mewn stiwdio addysgu
pensaerniaeth ac uned sgiliau adeiladu
arloesol gyda'r daith tu ôl i'r llenni hon o
amgylch adeiladau newydd Ysgol
Bensaerniaeth Abertawe a Chanolfan Arloesi
Adeiladwaith Cymru, sy'n rhannu cartref a
godwyd at y diben yn natblygiad diweddaraf y
glannau, Abertawe.

Mae angen cofrestru:
ian.standen@uwtsd.ac.uk



Gweithdy Byddwch yn Bensaer
am Ddiwrnod
Dydd Sadwrn 06 Ebrill 10am – 4.30pm
Ysgol Bensaerniaeth Abertawe, PCDDS, Ardal
Arloesi, Abertawe SA1 8EW
Dydd Sadwrn 01 Mehefin 10am – 4.30pm
Canolfan y Celfyddydau
Aberystwyth SY23 3DE



Sesiwn flasu gyda chymysgedd o heriau
adeiladu llawn hwyl a sesiynau briffio ar
ddylunio pensaernïol a thechnegau lluniadu;
rhoch gynnig ar greu lluniadau pensaernïol a
dylunio prosiect mewn un diwrnod! Addas i rai
12+ oed.

Mae angen cofrestru. Ar gyfer Abertawe
cysylltwch â Ryan Stuckey
r.stuckey@uwtsd.ac.uk
Ar gyfer Aberystwyth, archebwch drwy'r
Swyddfa Docynnau 01970 62 32 32
www.aberystwythartscentre.co.uk

BEIRNIADU BYW Y GYSTADLEUAETH DDYLUNIO

Tref Tredegar y Dyfodol
Dydd Iau 04 Ebrill 09.30am - 4pm

Ymunwch â'r tri chwmni o benseiri a
gyrhaeddodd y rhestr fer yng nghystadleuaeth
'Future Town Centres' RIBA Journal, wrth
iddynt gyflwyno eu syniadau dylunio i banel y
beirniaid gyda'r rownd derfynol yn cael ei
chynnal yn fyw yng nghanol tref Tredegar.

Mae angen cofrestru; rsaw@riba.org
029 2022 8987; anfonir manylion y lleoliad
ar ôl cofrestru.

ARDDANGOSFEYDD

Y Prosiect Adeiladu
Tan ddydd Sadwrn 23 Mawrth
Oriol Myrddin, Caerfyrddin

Mae arddangosfa Y Prosiect Adeiladu, gan yr
ymarferwyr creadigol Freshwest, yn fenter ar y
cyd gydag Oriol Myrddin lle mae anheddiad
bychan wedi esblygu drwy weithdai ymarferol
gydag ymwelwyr yn gwneud eu 'tŷ' plastr bach
eu hunain i gyfrannu at y gosodiad. Hefyd
gwahoddwyd artistiaid a gweithwyr creadigol
o amrywiaeth o ddisgyblaethau i ymateb i ac
ail-ddehongli'r treflun sy'n datblygu, gan ofyn:
beth yw tŷ? beth yw cartref? sut rydym yn
gwneud cymuned? Cewch weld y canlyniadau
yn Oriol Myrddin tan 23 Mawrth, neu gallwch

archebu lle ar y gweithdy ymarferol olaf ar
ddydd Sadwrn 16 Mawrth yn Nhŷ Newton,
Parc Dinefwr yr Ymddiriedolaeth
Genedlaethol.

<https://orielmyrddingallery.co.uk/>
Ffôn 01267 222775 Ar agor dydd Llun hyd
ddydd Sadwrn 10am - 5pm

Strata: Phillip Huckin
Tan ddydd Sadwrn 06 Ebrill
Ystafell y Pulpud, MOMA Machynlleth SY20 8AJ



Mae'r arddangosfa yn dangos gwaith a
gwblhawyd ar gyfer llyfr 'Ysbryd Ystrad Fflur',
cydweithrediad gyda'r bardd Cyril Jones, yr
archeolegydd yr Athro David Austin a'r
hansesydd diwylliant Cymru Rhiannon Jones,
ynghyd â gwaith a ysbrydolwyd gan dirwedd
Ceredigion.

moma.machynlleth.org.uk
Ffôn 01654 703355

Gorsafoedd Hela Morfilod Coll

yr Is-Antarctig

Paentiadau gan Theo Crutchley-Mack
Dydd Sadwrn 13 Ebrill tan ddydd Sadwrn
22 Mehefin
MOMA Machynlleth SY20 8AJ



Ynys yn yr is-Antarctig yw De Georgia a oedd yn gartref i'r diwydiannau hela morfilod yn yr ugeinfed ganrif. Erbyn hyn mae'n anghyfannedd, mae'r gorsafoedd diwydiannol yn adfeilion, ac mae angen trwydded gan y Llywodraeth i fynd yno. Canlyniad i gyfnod preswyl deufis o hyd Theo Crutchley-Mack gydag Ymddiriedolaeth Treftadaeth De Georgia yw'r arddangosfa, ac mae'n cofnodi'r dirwedd ddiwydiannol unigryw hon mewn 25 o luniadau a phaentiadau.

moma.machynlleth.org.uk
Ffôn 01654 703355

Darganfod Pensaernïaeth Cymru -

Gorffennol, Presennol a'r Dyfodol

Dydd Llun 06 Mai tan ddydd Gwener
28 Mehefin
Caffi'r cyntedd, Canolfan y Celfyddydau
Aberystwyth SY23 3DE

Yn ogystal â chael cyfle i weld adeiladau gwobrwyedig RSAW a'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2018, mae'r arddangosfa hon yn dangos esblygiad pensaernïol Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, yn o gystal â rhoi cipolwg ar yr arteffactau a gedwir mewn gwahanol archifau a chasgliadau Pensaernïaeth Cymru.

www.aberystwythartscentre.co.uk
Ffôn 01970 623232

O'r archifau - trysorau o gasgliad

lluniadau pensaernïol yn Llyfrgell

Genedlaethol Cymru

Dydd Llun 01 Ebrill tan ddydd Gwener
12 Ebrill

Ystafell Summers, Llyfrgell Genedlaethol
Cymru, Aberystwyth SY23 3BU

Cyfle i weld eitemau o gasgliad lluniadau pensaernïol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, na fydd fel arfer ar gael i'w gweld gan y cyhoedd.

www.llyfrgell.cymru
Ffôn 01970 632 800

FFILM

Tymor o ffilmiau pensaernïaeth yn
Manorhaus, Rhuthun, Sir Ddinbych

Dydd Sadwrn 30 Mawrth

Metropolis Archwiliad ffuglen wyddonol
clasurol Fritz Lang o ddinas y dyfodol hynod
arddulliedig iwtopaidd/dystopaidd o 1927.

Dydd Sadwrn 27 Ebrill

Dark City Mae'r ffilm neo-noir ffuglen
wyddonol hon a gyfarwyddwyd gan Alex
Proyas yn dilyn gŵr sy'n dioddef o amnesia ar
ffo mewn dinas dywyll a thrafferthus.

Dydd Sadwrn 25 Mai

Urbanized Ffilm ddogfen gan Gary Hustwit sy'n
trafod dyluniad dinasoedd a'r materion a'r
strategaethau sy'n sail i ddylunio trefol.

Dydd Sadwrn 29 Mehefin

1984 Nid oes modd osgoi'r Brawd Mawr yn
yr addasiad ffilm hwn o'r nofel 1984 gan
George Orwell.

Bydd y ffilmiau'n dechrau am 6.45pm.

Tocynnau £22.50 sy'n cynnwys dangosiad o'r
ffilm, cinio 2 gwrs ar thema'r ffilm dan sylw,
hufen iâ yn ystod yr egwyl.
www.picturehausfilmclub.com - cyfrinair y
wefan 'casablanca'.

SGYRSIAU

Stori'r Beirniad – profiadau o reithgor Tŷ y Flwyddyn yr RIBA

Dydd Mawrth 26 Mawrth, 6pm hyd 7.30pm
Ysgol Bensaerniaeth Abertawe, PCDDS,
Adeilad IQ, Heol Ynys, Heol y Brenin, Abertawe SA1 8EW

Wedi'i gynnal gan Gangen Gorllewin Cymru RSAW yn yr Ysgol Bensaerniaeth newydd yn Abertawe, bydd Niall Maxwell, sefydlydd Swyddfa Wledig Pensaerniaeth, ac enillydd gwobr Tŷ y Flwyddyn RIBA 2017 am Caring Wood yn Swydd Caint, yn mynd â ni y tu ôl i'r camera i sgwrsio am gynhyrchiad rhaglenni teledu Grand Designs House of the Year 2018 gan Channel 4 a'i rôl fel aelod o'r panel beirniadu.

Mae angen cofrestru r.stuckey@uwtsd.ac.uk

Darlith gan Benseiri Hall + Bednarczyk a thrafodaeth

Dydd Mawrth 09 Ebrill, 7pm
Canolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth

Y penseiri Kelly Bednarczyk a Martin Hall yn cyflwyno sgwrs am eu prosiectau gwobrywedig, gyda thrafodaeth panel am 'Ranbartholdeb mewn Pensaerniaeth' i ddilyn, gyda'r cyd-bensaer Mary Arnold-Forster, yn theatr ddarlithio pridd cywasgedig Canolfan y Dechnoleg Amgen, sydd ei hun yn adeilad gwobrywedig gan David Lea a Pat Borer.

Rhagor o fanylion john.carter@cat.org.uk
www.cat.org.uk

Frank Lloyd Wright

Dydd Sadwrn 13 Ebrill 10.30am
Theatr ddarlithio fach cemeg, Prif Adeilad, Prifysgol Caerdydd, Plas y Parc, Caerdydd

Cyfle i ddysgu am wreiddiau a dylanwadau Gorllewin Cymru sy'n sail i waith llawngweledigaeth Frank Lloyd Wright, y "penaser Americanaidd gorau erioed" yn y sgwrs hon gan y pensaer a'r darlledwr Jonathan Adams. Mae tocyn yn cynnwys coffi a bisgedi wedi'r ddarlith gyda Chyfeillion Amgueddfa Genedlaethol Cymru, sy'n cynnal y digwyddiad. [Tocynnau £10 wrth y drws yn cynnwys lluniaeth.](#)

Hanes pensaerniaeth mewn 20

o adeiladau Cymru
Dydd Mercher 08 Mai
MOMA Machynlleth - Cyfres sgysiaau Canol
Dydd Diwrnod Marchnad

Mae'r sgwrs hon gan Richard Parnaby yn herio'r syniad mai prin yw'r diwylliant pensaernïol yng Nghymru drwy awgrymu y gellir adrodd stori pensaerniaeth Prydain, hyd yn oed Ewrop, y mileniwm diwethaf gan ddefnyddio enghreifftiau o adeiladau yng Nghymru. Detholiad o adeiladau annisgwyl, neu eithaf anadnabyddus, fydd cychwyn taith

drwy Gymru gyfan o Sir Benfro cynhanes drwy Gasnewydd a Llandudno i adeiladau sydd wrthi'n cael eu codi yng Nghaerdydd. Ymunwch â ni ar y diwrnod!
moma.machynlleth.org.uk
Ffôn 01654 703355

William Burges -

Athrylith yr Adfywiad Gothig

Dydd Sadwrn 08 Mehefin 10.30am
Theatr ddarlithio Reardon Smith, Plas y Parc, Caerdydd

Mae curadur Castell Caerdydd, Matthew Williams, yn arbenigwr cydnabyddedig ar ddylunio Oes Fictoria a gwaith pensaer yr adfywiad Gothig William Burges. Mae tocyn yn cynnwys coffi a bisgedi wedi'r ddarlith gyda Chyfeillion Amgueddfa Genedlaethol Cymru, sy'n cynnal y digwyddiad.

[Tocynnau £10 wrth y drws yn cynnwys lluniaeth.](#)





Contact RSAW for information on all events/
 Cysylltwch ag RSAW i gael gwybodaeth am bob digwyddiad:
 RSAW Studio 111, The Creative Quarter, Morgan Arcade, Cardiff CF10 1AF
www.architecture.com/wales Tel/Ffôn 02920 228987
 Translation/Cyfieithiad: Dyfrig Parri dyfrig@fbcymru.co.uk
 Design/Dylunio: Peter Marks - peter@petermarkswales.co.uk

The Wales Festival of Architecture is supported by/Cefnogir Gŵyl Bensaerniaeth Cymru gan:




Photo credits/Lluniau:
 Covers/ ©. National Trust; Richard Parnaby
 Clonau:
 P/Tud 4 : Richard Parnaby; Joanna Clarke
 P/Tud 5: David Rossington; Phillip Huckin
 P/Tud 6: Theo Crutchley-Mack
 P/Tud 7: Richard Parnaby
 Centre/ Richard Parnaby
 Canol: